ATODLEN 5

Rheoli a dileu TSE mewn anifeiliaid nad ydynt o deulu'r fuwch, y ddafad na'r afr

**Cadw cynhyrchion a gwaredu**

**5.**—(1) Mewn perthynas ag unrhyw garw a ddewisir ar gyfer samplu yn rhan o'r arolwg sy'n ofynnol o dan Erthygl 3(1) o Benderfyniad y Comisiwn 2007/182/EC ynglyn ag arolwg ar gyfer clefyd nychu cronig mewn anifeiliaid o deulu'r carw(**1**), rhaid i feddiannydd lladd-dy, marchnad ledr neu danerdy—

(a) at ddibenion pwynt 1 o Atodiad III i Benderfyniad y Comisiwn 2007/182/EC, gadw yn ei feddiant y carcas a phob rhan o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) hyd nes ceir canlyniad y prawf; a

(b) os ceir canlyniad positif, gwaredu'r carcas a phob rhan o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) ar unwaith yn unol â phwynt 4 o'r Atodiad hwnnw.

(2) Mewn perthynas â'r paragraff hwn, caniateir i bwerau arolygydd gael eu harfer hefyd gan berson a benodir fel y cyfryw mewn perthynas â marchnad ledr neu danerdy gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth.

(3) Mae unrhyw berson sy'n peidio â chydymffurfio â pharagraff (1) yn euog o dramgwydd.

(**1**) OJ Rhif. L 84, 24.3.2007, t.37.